Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Cyhoeddwyd
Chwefror 2024

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**



# Cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2024/2025



# Mynd i'r afael â heriau ariannol tra'n gwella hygyrchedd a diogelu plismona yn y gymdogaeth

Eich Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Dafydd Llywelyn sy'n gyfrifol am osod y gyllideb ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys gosod y praesept, sef yr elfen o'r dreth gyngor sy'n mynd tuag at eich gwasanaeth heddlu lleol.

Ar ôl proses graffu helaeth, cefnogodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn unfrydol gynnig praesept y CHTh ar gyfer 2024/25, a fydd yn cynyddu eiddo Band D cyfartalog gan 6.2%. Mae hyn yn cyfateb i £19.38 y flwyddyn, tua £1.62 y mis.

Mae cydbwysedd denau rhwng mynd i'r afael â galwadau gweithredol i sicrhau diogelwch y cyhoedd, tra'n sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr a rheolaeth ariannol gadarn. Wrth osod y praesept, mae'r CHTh yn ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys chwyddiant a phwysau costau, galwadau gwasanaeth, gofynion buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer seilwaith hanfodol, cynlluniau effeithlonrwydd a chynhyrchiant yn ogystal ag ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn. Mae'r CHTh hefyd yn ceisio adborth gan drigolion ardal Dyfed-Powys, gan gydnabod y baich ychwanegol y bydd unrhyw gynnydd yn y praesept yn ei roi ar drethdalwyr.

Mae'r heriau eleni wedi'u gwaethygu gan doriadau sylweddol i gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Mae SCCH yn rhan annatod a phwysig o blismona yn y gymdogaeth ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau. Mae gwasanaeth a darpariaeth Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan hefyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth gynnal ac adeiladu amgylchedd diogel a saff i blant a phobl ifanc. Mae'r gyllideb hon yn parhau i gefnogi'r gwasanaethau hanfodol hyn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cydnabuwyd hefyd bod angen buddsoddiad o fewn Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu fel y gall Heddlu Dyfed-Powys ymateb yn effeithiol ac effeithlon i alwadau cynyddol. I lawer dyma'r pwynt cyswllt cyntaf gyda'r heddlu, ac mae sicrhau hygyrchedd gwasanaethau i'r cyhoedd yn flaenoriaeth i'r Heddlu.

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Maent yn hyderus bod y cynnydd hwn yn angenrheidiol i ddiogelu diogelwch a lles ein cymdogaethau.



## Faint fyddwch chi'n ei dalu ar gyfer plismona yn 2024-25 drwy eich Treth Gyngor?

| Band Treth | 2023/24 | 2024/25 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| A | £208.43 | £221.35 | £12.92 |
| B | £243.17 | £258.25 | £15.08 |
| C | £277.91 | £295.14 | £17.23 |
| **D** | **£312.65** | **£332.03** | **£19.38** |
| E | £382.13 | £405.81 | £23.68 |
| F | £451.61 | £479.60 | £27.99 |
| G | £521.08 | £553.38 | £32.30 |
| H | £625.30 | £664.06 | £38.76 |
| I | £729.52 | £774.74 | £45.22 |



## Ble mae'r arian yn mynd ac yn dod:

| Cyllideb refeniw | 2023/24 diwygiwyd £m | 2024/25 £m |
|---|---|---|
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu | 1.322 | 1.504 |
| Gwasanaethau a Gomisiynir | 1.051 | 1.333 |
| **Costau Net SCHTh** | **2.373** | **2.837** |
| Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu | 122.067 | 134.580 |
| Treuliau Rhedeg Eraill | 25.721 | 24.170 |
| Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract | 4.707 | 5.771 |
| Costau Ariannu Cyfalaf | 3.342 | 3.798 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu** | **155.837** | **168.319** |
| Incwm | -9.198 | -10.118 |
| Grantiau Eraill | -12.940 | -16.007 |
| Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn | -2.658 | -1.129 |
| **Gofyniad Cyllideb Net** | **133.414** | **143.902** |
| Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref) | -52.404 | -56.125 |
| Ardrethi Annomestig a Ailddosbarthwyd (Llywodraeth Cymru) | -0.173 | -0.192 |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | -8.319 | -8.220 |
| Praesept Treth Gyngor | -72.518 | -79.364 |
| **Cyfanswm yr Arian** | **-133.414** | **-143.902** |
| **Asesiad o Wariant Safonol** | **34.368** | **34.936** |
| **Cyllideb Gwariant Cyfalaf** | **11.338** | **21.326** |
| **Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | **-14.149** | **-11.023** |

# Diwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys:

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â'r Heddlu, gan gynnwys ar-lein. Ymdrinnir â chyswllt ar-lein yn yr un modd â galwadau 101 nad ydynt yn rhai brys. Dyma rai o enghreifftiau o'r gofynion sy'n cyfrannu at ddiwrnod arferol i Heddlu Dyfed-Powys.*

999

**142**
Galwadau 999

**500**
Galwadau 101

**149**
Cysylltiadau Digidol, gan gynnwys gwefan, cyfryngau cymdeithasol ac ebost

| | | |
|---|---|---|
| **125** Troseddau a gofnodwyd | **17** Digwyddiadau Ymddyguad Gwrthgymdeithasol a adroddwyd | **5** Troseddau Rhywiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **18** Troseddau cam-drin domestig | **4** Troseddau cyffuriau (gyda chanlyniad trosedd cadarnhaol) | **7** Pobl ar goll | **53** Digwyddiadau Iechyd Meddwl |

**Yn seiliedig ar ddata blwyddyn ariannol 2022-2023

## Bydd cyllideb 24-25 yn cefnogi

| | |
|---|---|
| Swyddogion Heddlu | 1294 |
| PCSOs | 132 |
| Staff yr Heddlu | 772 |

*(Cyfwerth Amser Llawn)*



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**


01267 226440 opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk @DPOPCC